Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru
North Wales
Wildlife Trust

PECYN CYMORTH GARDDWYR

# PROFFIL PLANHIGYN

## Crib-y-ceiliog

YMLEDOL

FFEITHIAU | ID | HELPWCH | TIPIAU | MWY O BROFFILIAU



## Disgrifiad o'r rhywogaeth

**Enw gwyddonol:**
*Crocosmia × crocosmiiflora*
*Crocosmia aurea × C. pottsii*

**Brodorol i:**
Hybrid garddwriaethol o rywogaethau gwreiddiol o Dde Affrica.

Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

Lluniau: NWWT Lisa Toth

# Ffeithiau diddorol



## Effeithiau:

Mae crib-y-ceiliog yn tyfu i glystyrau mawr a gall orchfygu planhigion brodorol.

## Cynefin:

Coetiroedd ac ymylon coetiroedd, ymylon ffyrdd, gerddi, clogwyni arfordirol, gwrychoedd, ochrau llynnoedd, afonydd a nentydd, chwareli, mynwentydd eglwysi, ac ar dir gwastraff.



Planhigyn lluosflwydd cormaidd, cryf. Cafodd ei gyflwyno i Brydain yn 1880 a'i gofnodi am y tro cyntaf yn y gwyllt yn 1907.

## Sut mae'n lledaenu:

Gall gynhyrchu hadau ond yn amlach na pheidio mae'n cyrraedd i ddechrau yn y gwyllt drwy gael ei ollwng. Yn lledaenu trwy atgynhyrchu rhisomau sy'n creu cormau newydd yn agor i'r rhiant-blanhigyn.

BRIG

Lluniau: NWWT Lisa Toth

# Nodweddion adnabod allweddol

Sbigynnau canghennog fel bwa o flodau siâp twmffat oren disglair yn ystod yr haf. Mae blodau yn 3-5cm ar draws.



Dail siâp cleddyf gwyrdd golau unionsyth hyd at 60cm o uchder.



Mae dail yn troi'n frown ar ddiwedd yr haf.





Pennau hadau.



Corm.

BRIG

Lluniau: NWWT Lisa Toth a GB NNSS

# Gweithredu

# Helpu i atal y lledaeniad





Dylid cael gwared ar y planhigyn trwy balu, gan sicrhau eich bod yn tynnu'r cormau i gyd.

Dylid cael gwared ar yr eginblanhigion trwy balu, gan sicrhau eich bod yn tynnu'r cormau.



Peidiwch â chompostio cormau adref, defnyddiwch gyfleusterau gwastraff gardd y cyngor.

Archwiliwch ein hawgrymiadau ar gyfer syniadau planhigion amgen.



BRIG

# Cyngor defnyddiol

## Deddfwriaeth:

Mae crib-y-ceiliog wedi'i restru fel rhywogaeth ymledol ar Atodlen 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981). Mae'n drosedd plannu neu achosi i dyfu yn y gwyllt.

Dylai garddwyr sy'n meddu ar y planhigyn hwn gymryd camau i helpu **atal ei ledaeniad** o'u gerddi i'r gwyllt.

## Rhywogaethau tebyg:

Ni ddylid ei gymysgu gyda'r gellesgen (*Iris pseudacorus*) neu'r gellesgen ddrewllyd frodorol (*Iris foetidissima*)



Gellesgen

## Syniadau am blanhigion amgen

### Native

Gellesgen (*Iris pseudacorus*)

### Anfrodorol

Procer poeth Rooper (*Kniphofia rooperi*)



Procer poeth Rooper

BRIG

Lluniau: Jim Higham, Christopher Whitehouse.
Darluniau: David Setter @doodleplant a starfishonline.co.uk
Gwybodaeth wedi'i chasglu gan GB NNSS, RHS a BSBI.